# YGG Parc y Tywyn :
# Polisi Chwythu'r Chwiban

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth wraidd cynllunio, polisïau, arfer ac ethos ein hysgol. Fel ysgol sy'n parchu hawliau, yn ogystal ag addysgu am hawliau plant, rydym hefyd yn modelu hawliau a pharch ym mhob un o'n perthnasoedd - yn berthnasol i Erthyglau 3 a 29 y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn.

**Cyflwyniad**

Diffiniwyd chwythu'r chwiban fel a ganlyn:

**'the disclosure by an employee or professional of confidential information which relates to some danger, fraud or other illegal or unethical conduct connected with the workplace, be it of the employee or his/her fellow employees'**

*(Public Concern at Work Guidelines 1997).*

Mae'r **Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998** yn rhoi gwarchodaeth statudol i weithwyr sy'n chwythu'r chwiban. Mae'r Ddeddf yn gwarchod gweithwyr rhag cael eu herlid os byddant yn gwneud datgeliad a ddiogelir yn unol ag ystyr y Ddeddf ac yn codi llais am bryderon ynghylch ymddygiad neu arferion yn yr ysgol all fod yn anghyfreithlon, yn llwgr, yn amhriodol, yn anniogel neu'n anfoesegol neu sy'n gyfystyr â chamymddygiad.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob aelod o staff ysgol gan gynnwys staff amser llawn a rhan-amser, achlysurol, dros dro neu staff dirprwyol ac unigolion sydd ar brofiad gwaith yn yr ysgol.

## Amcanion a Chwmpas y Polisi

Mae'r corff llywodraethu wedi ymrwymo i gynnal safonau uchel ym mhob agwedd ar yr ysgol a bydd yn trin chwythu'r chwiban fel mater difrifol. Yn unol ag ymrwymiad y corff llywodraethu i fod yn agored, yn gywir ac yn atebol, anogir aelodau'r staff i adrodd am bryderon; bydd y rhain yn cael eu cymryd o ddifrif, ymchwilir iddynt a chymerir camau priodol mewn ymateb i hynny.

Nod y polisi hwn yw:

- rhoi hyder i aelodau o'r staff ynglŷn â mynegi pryderon am ymddygiad neu arferion all fod yn anghyfreithlon, yn llwgr, yn amhriodol, yn anniogel neu'n anfoesegol neu sy'n

gyfystyr â chamymddygiad neu sy'n anghyson â safonau a pholisïau'r ysgol, fel yr anogir ef/hi i weithredu ar y pryderon hynny
- rhoi ffyrdd o fynegi pryderon i aelodau o'r staff
- sicrhau fod aelodau o'r staff yn derbyn ymateb i'r pryderon y maen nhw wedi eu mynegi ac adborth am unrhyw gamau a gymerwyd
- rhoi sicrwydd i'r staff eu bod yn cael eu gwarchod rhag dial neu erledigaeth am gymryd camau chwythu'r chwiban mewn modd didwyll ac yn unol ag ystyr y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd.

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â chwythu'r chwiban mewn perthynas â'r digwyddiadau honedig canlynol:

- ymddygiad anghyfreithlon
- camweddau cyfiawnder wrth drin prosesau statudol neu brosesau eraill
- methu â chydymffurfio â rhwymedigaeth statudol neu gyfreithiol
- camweinyddu, camymddwyn neu arfer gwael posibl
- materion iechyd a diogelwch gan gynnwys peryglon i'r cyhoedd yn ogystal â pheryglon i ddisgyblion ac aelodau o'r staff
- gweithredu sydd wedi peryglu'r amgylchedd neu sy'n debygol o wneud hynny
- camddefnyddio awdurdod
- defnyddio arian cyhoeddus neu arian arall heb awdurdod
- twyllo neu lygru
- torri rheolau neu bolisïau ariannol
- cam-drin unrhyw berson
- gweithredu sydd wedi achosi neu sy'n debygol o achosi perygl corfforol i unrhyw berson neu roi eiddo'r ysgol mewn perygl o niwed difrifol
- cam-drin aelodau o'r staff neu ddisgyblion yn rhywiol, yn gorfforol neu'n emosiynol
- gwahaniaethu neu ffafriaeth annheg
- digwyddiadau neu weithredoedd hiliol, neu aflonyddu hiliol ac
- unrhyw ymdrech i atal datgelu unrhyw un o'r materion a restrwyd.

Mae'r Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd yn amlinellu hawliau a rhwymedigaethau statudol llawn aelodau o'r staff sy'n dymuno chwythu'r chwiban. Lle nad yw aelodau o'r staff yn sicr am unrhyw un o ofynion y Ddeddf dylent holi am gyngor pellach. Elusen annibynnol yw Public Concern at Work sy'n rhoi cyngor yn rhad ac am ddim i'r rhai hynny sy'n dymuno mynegi pryderon am dwyll neu gamymddygiad difrifol arall (ffôn 0207 404 6609 neu *www.pcaw.co.uk*). Gallai aelodau o'r staff gysylltu hefyd â'u hundeb llafur am ragor o gyngor.

## Gwarchod rhag Dial, Aflonyddu ac Erledigaeth

Ni fydd y corff llywodraethu'n caniatáu aflonyddu neu erlid aelodau o'r staff pan fo materion yn cael eu codi'n unol â darpariaethau'r Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd. Bydd unrhyw aelod o staff sy'n erlid neu'n afl onyddu aelod o staff, o ganlyniad i'r ffaith iddynt fynegi pryder yn unol â'r polisi chwythu chwiban, yn cael ei drin yn unol â gweithdrefnau disgyblu staff y corff llywodraethu.

Mae'r Ddeddf yn gwarchod gweithwyr dan amgylchiadau lle gellir categoreiddio eu datgeliad yn ddatgeliad a ddiogelir. Dan y Ddeddf byddai'n annheg fel mater o drefn diswyddo neu wneud unrhyw weithiwr/aelod o'r staff yn ddi-waith oherwydd iddynt wneud datgeliad a ddiogelir; a byddai'n anghyfreithlon gwneud iddynt ddioddef unrhyw niwed arall, fel diraddiad neu ddirwy. Pe bai gweithredu o'r fath yn digwydd mae gan Dribiwnlys Cyflogaeth y grym i orchymyn adfer, ail- gyflogi neu i orchymyn talu iawndal i hawlwyr llwyddiannus.

## Cyfrinachedd

Mae'r corff llywodraethu yn cydnabod y gall aelodau o staff fod eisiau mynegi pryderon yn gyfrinachol a bydd yn gwneud ei orau glas i warchod hunaniaeth aelodau'r staff sy'n mynegi pryder ac nad ydynt am i'w henwau gael eu datgelu.

Fodd bynnag gallai ymchwilio i'r mater ddatgelu ffynhonnell yr wybodaeth; ac efallai y bydd angen datganiadau gan yr aelod o'r staff fel rhan o'r dystiolaeth, a byddai hyn yn cael ei weld gan yr holl bartïon sy'n ymwneud â'r achos. Os bydd yr archwiliad yn arwain at erlyniad mae'r chwythwr chwiban yn debygol o gael ei alw i roi tystiolaeth yn y llys.

Ni fydd y corff llywodraethu'n rhoi unrhyw bwysau ar aelodau o'r staff i roi eu henwau a bydd yn rhoi ystyriaeth briodol i fwrw ymlaen ag ymchwilio i'r mater ar sail honiad dienw.

## Honiadau Dienw

Lle bynnag y bo hynny'n bosibl dylai staff roi eu henwau wrth honiadau - mae pryderon dienw'n llawer llai grymus. Er hynny bydd honiadau dienw'n cael eu hystyried dan y drefn chwythu chwiban hon, yn arbennig pryderon a fynegwyd am les plant. Mewn perthynas â phenderfynu a fydd gweithredu ai peidio ar sail honiad dienw, bydd y corff llywodraethu'n cymryd y ffactorau canlynol i ystyriaeth:

- difrifoldeb y mater a godwyd
- pa mor gredadwy yw'r pryder
- pa mor debygol yw hi y gellir cadarnhau'r honiad o ffynonellau y gellir eu priodoli, a chael gafael ar wybodaeth a ddarparwyd.
-

## Honiadau Anwir a Maleisus/Blinderus

Os yw aelod o staff yn gwneud honiad yn ddidwyll ond nad yw'n cael ei gadarnhau wedi ymchwilio ymhellach dyna derfyn y mater ac ni fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd. Fodd bynnag, os bydd yr ymchwiliad yn dangos fod honiadau anwir yn rhai maleisus a/neu flinderus neu wedi eu gwneud gyda'r bwriad o elwa'n bersonol yna bydd y corff llywodraethu'n ystyried cymryd camau disgyblu yn erbyn yr aelod staff.

## Honiadau'n ymwneud â Materion Amddiffyn Plant

Os bydd aelod o staff yn mynegi pryder mewn perthynas â mater amddiffyn plant, dylai'r pennaeth neu gadeirydd y llywodraethwyr ymgynghori ar frys â'r swyddog AALl a ddynodwyd i arwain ar faterion amddiffyn plant (neu, os nad yw ar gael, rheolwr dynodedig amddiffyn plant adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod) fel y gellir rhoi cychwyn ar y camau ar gyfer ymdrin â chyhuddiadau o'r fath dan weithdrefn ddisgyblu'r ysgol ar gyfer staff a'r gweithdrefnau amddiffyn plant a sefydlwyd gan y Byrddau Lleol Diogelu Plant.

Fodd bynnag, mewn perthynas â materion amddiffyn plant, mae gan yr aelod o'r staff y dewis o wneud cyfeiriad uniongyrchol i reolwr dynodedig y gwasanaethau cymdeithasol naill ai cyn mynegi ei bryder i'r corff llywodraethu neu lle bo'r pennaeth neu gadeirydd y llywodraethwyr yn methu â gwneud hynny ar ôl mynegi'r pryder a bod yr aelod o staff yn parhau i fod yn bryderus am y sefyllfa.

## Gweithdrefn ar gyfer Gwneud Honiad Chwythu'r Chwiban

Dylech fynegi eich pryder i'ch rheolwr llinell, y pennaeth, cadeirydd y llywodraethwyr, neu'r llywodraethwr â enwebwyd ar gyfer chwythu'r chwiban. Bydd y sawl y byddwch yn cysylltu ag ef/hi yn dibynnu i raddau ar ddifrifoldeb a sensitifrwydd y mater a phwy y tybir sy'n gysylltiedig â'r mater.

Os ydych yn teimlo na allwch fynegi eich pryderon yn yr ysgol, mae gennych ddewis i fynegi eich pryder i rywun y tu allan i'r ysgol o'r rhestr sefydliadau yn yr adran 'Gweithredu Ymhellach' yn y polisi hwn; ymhlith y sefydliadau allweddol rydym yn awgrymu eich bod yn cysylltu â nhw mae'r AALl, Public Concern at Work a'r undebau llafur. Fodd bynnag, lle bo'r pryder yn gysylltiedig â mater amddiffyn plant, os nad ydych yn dymuno codi hyn drwy'r ysgol, mae'n rhaid i chi gysylltu â'r swyddog AALl a ddynodwyd i arwain ar faterion amddiffyn plant neu os nad yw'r person hwnnw ar gael, rheolwr dynodedig amddiffyn plant gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol. Os yw'r mater yn golygu bod angen i'r Heddlu neu awdurdod statudol arall fod yn rhan ohono, bydd y broses chwythu chwiban yn cael ei hatal hyd nes y bydd yr awdurdodau statudol wedi cwblhau eu hymchwiliadau a chadarnhau ei bod yn briodol parhau â'r broses chwythu chwiban.

Os yn bosibl mynegwch eich pryder ar bapur er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth. Dylech amlinellu'r cefndir a hanes y pryder, gan roi enwau, dyddiadau a lleoedd lle bo hynny'n bosibl, ac esbonio'r rhesymau dros eich pryderon. Os ydych yn teimlo na allwch chi fynegi'r mater ar ddu a gwyn gallwch fynegi eich pryder ar lafar er hynny a dylech ffonio neu drefnu i gyfarfod â'r person priodol. Gallwch hefyd ofyn i'ch undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol godi'r mater ar eich rhan neu eich cynorthwyo i fynegi'r pryder.

## Ymateb i Chwythu'r Chwiban

Gall y mater a godwyd:

- fod angen ei ymchwilio'n fewnol yn yr ysgol
- fod angen ei gyflwyno i'r Heddlu os yw'n gysylltiedig â gweithgaredd troseddol honedig

- fod angen ei gyflwyno i'r sawl yn yr AALl sy'n delio â chwynion am reolaeth ariannol neu briodoldeb ariannol mewn ysgolion
- fod angen ei gyfeirio at y swyddog AALl a ddynodwyd i arwain ar faterion amddiffyn plant os oes pryder yn gysylltiedig ag amddiffyn plant neu, os nad yw'r person hwnnw ar gael, rheolwr dynodedig amddiffyn plant gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol.

Yn ystod y cyfnod hwn nid yw pryderon/honiadau'n cael eu derbyn na'u gwrthod.

## Amserlen ar gyfer Ymateb

Fel arfer, bydd y sawl [enw/statws] a benodwyd gan y corff llywodraethu i ymchwilio i honiadau chwythu'r chwiban yn darparu ymateb ysgrifenedig i chi **o fewn 5 diwrnod gwaith** (ac eithrio pan fo honiadau dienw):

- yn cydnabod bod y mynegiant o bryder wedi'i dderbyn
- yn nodi sut y bwriedir delio â'r mater
- yn rhoi amcangyfrif o faint o amser y bydd yn ei gymryd i ddarparu ymateb terfynol
- yn dweud a oes unrhyw ymholiadau wedi cael eu gwneud
- yn dweud a fydd ymholiadau pellach yn cael eu gwneud
- yn eich hysbysu am y cymorth sydd ar gael tra bod y materion yn cael eu hymchwilio, ac
- yn cynnal cyfrinachedd lle bynnag y bo hynny'n bosibl, ond yn esbonio hefyd na fydd yn bosibl i chi barhau i fod yn ddienw, efallai.

## Y Broses Ymchwilio

Bydd y sawl a benodir: Mrs. A. Williams (Y Pennaeth) neu Mr. M. Davies (Cadeirydd y Llywodraethwyr) yn:

- Ymchwilio i'r honiad - yn chwilio am dystiolaeth ac yn cyfweld tystion yn ôl yr angen.
- Cynnal cyfrinachedd lle bynnag y bo hynny'n bosibl ond bydd yn ymwybodol nad oes unrhyw warant y gall y chwythwr chwiban barhau i fod yn ddienw.
- Os yw'n briodol, dod â'r mater i sylw'r sawl a benodwyd gan yr AALl sy'n ymdrin â chwynion am reolaeth ariannol ysgolion.
- Os yw'n briodol, yn achos materion yn ymwneud ag ymddygiad troseddol, cyfeirio'r mater i sylw'r Heddlu.
- Os yw'n briodol, ar gyfer pryderon yn ymwneud ag amddiffyn plant, cyfeirio'r mater i sylw'r swyddog a benodwyd gan yr AALl i arwain ar faterion amddiffyn plant /rheolwr dynodedig amddiffyn plant gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol. Bydd y broses chwythu chwiban yn cael ei hatal hyd nes y bydd yr awdurdodau statudol wedi cwblhau eu hymchwiliadau a chadarnhau ei bod yn briodol parhau â'r broses chwythu chwiban

Os oes angen i'r sawl a benodwyd gan y corff llywodraethu siarad â chi, mae gennych yr hawl i gael eich hebrwng gan gynrychiolydd undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol neu gyd-aelod o'r staff nad yw'n rhan o'r maes gwaith y mae'r pryder yn gysylltiedig ag ef.

Y nod yw cwblhau'r ymchwiliad **o fewn 10-15 diwrnod gwaith** o ddyddiad yr ymateb ysgrifenedig cychwynnol. Os bydd yr ymchwiliad yn ymestyn y tu hwnt i'r amserlenni a amlinellwyd am resymau penodol bydd yr holl unigolion sy'n ymwneud â'r achos yn cael eu hysbysu ynglŷn â hyn drwy lythyr gan nodi pryd y daw'r ymchwiliad i ben

## Adroddiad yr Ymchwiliad

Wedi cwblhau'r broses ymchwilio bydd y sawl a benodwyd [enw / statws] yn llunio adroddiad ysgrifenedig ac yn ei gyflwyno i gadeirydd y corff llywodraethu **o fewn 5 diwrnod gwaith** fel arfer. **Ni fydd yr adroddiad yn cynnwys enw'r chwythwr chwiban oni bai eich bod wedi datgan yn unswydd eich bod yn dymuno cael eich enwi**.

Ar ôl derbyn adroddiad yr ymchwiliad, bydd cadeirydd y llywodraethwyr yn galw cyfarfod o'r pwyllgor gydag un llywodraethwr arall o leiaf ac un person annibynnol oddi allan i'r corff llywodraethu, e.e. yr AALl neu lywodraethwr ysgol arall, i ystyried adroddiad yr ymchwiliad a phenderfynu pa gamau sydd i'w cymryd. Fel rheol dylai hyn ddigwydd **o fewn 5-10 diwrnod gwaith** wedi derbyn adroddiad yr ymchwiliad.

Ar ôl eich hysbysu am benderfyniad y pwyllgor, bydd cadeirydd y llywodraethwyr yn eich hysbysu am y canlyniad **o fewn 5 diwrnod gwaith** fel arfer (ac eithrio mewn perthynas â honiadau dienw), gan amlinellu'r camau sydd i'w cymryd neu'n nodi na fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd a'r rhesymau pam.

## Gweithredu Ymhellach

Os nad oes unrhyw gamau i'w cymryd a/neu eich bod yn anfodlon â'r modd y deliwyd â'r mater, gallwch wneud cwyn dan drefn gwyno'r corff llywodraethu neu fynegi eich pryderon i sefydliadau eraill yn y rhestr isod:

- yr awdurdod lleol
- awdurdod esgobaethol (ar gyfer ysgolion Eglwys)
- corff proffesiynol neu sefydliad rheoli perthnasol megis Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC) neu Swyddfa Archwilio Cymru
- Comisiynydd Plant Cymru
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- cyfreithiwr
- yr Heddlu - ar gyfer pryderon yn ymwneud ag ymddygiad troseddol
- undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol
- Public Concern at Work (elusen annibynnol sy'n rhoi cyngor yn rhad ac am ddim i bobl sydd eisiau mynegi pryderon am dwyll a chamymddygiad difrifol arall. Ffôn 0207 404 6609 neu www.pcaw.co.uk).

| | Enw | Llofnod | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Cadeirydd y Llywodraethwyr | Matthew Davies | MDavies | 27/01/25 |
| Pennaeth yr Ysgol | Angharad Williams | AWilliams | 16.07.25 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad adolygu | Mai 2026 |